



SGILIAU A CHRYFDERAU >

Cynllun y Sesiwn



Prince's Trust

START
SOMETHING

DATBLYGIAD CYMDEITHASOL, PERSONOL

CIPOLWGW >

Mae'r sesiwn yma'n helpu'r bobl ifanc i adnabod eu sgiliau a'u cryfderau eu hunain, yn ogystal â'r sgiliau y bydden nhw'n hoffi eu datblygu i'w helpu gyda'u diddordebau a'u huchelgais. Bydd yn helpu'r dysgwyr i fagu hunanhyder.



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH A RHIFEDD

- ✓ Ysgrifennu brawddegau llawn sy'n gywir o ran sillafu, atalnodi a gramadeg
- ✓ Defnyddio geiriaduron (ar-lein neu lyfrau) i chwilio am eiriau allweddol a chael diffiniad ohonyn nhw
- ✓ Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ac ymarfer sgiliau siarad a gwrando



CYFLEOEDD I GAELCYMWWYSTERAU

- ✓ Datblygiad Personol - Deiliant Dysgu: Deall eu hanghenion eu hunain o ran datblygiad personol

DEILLIANNAU DYSGU >

- ✓ Dweud beth yw sgiliau a chryfderau
- ✓ Dweud beth yw eu sgiliau a'u cryfderau eu hunain
- ✓ Dweud pa elfennau y mae angen iddyn nhw eu datblygu'n bersonol

GWEITHGAREDDAU >

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
<u>Torri'r garw</u>	10-15 munud	<u>03</u>
<u>Cyflwyniad i ddatblygu sgiliau</u>	15 munud	<u>04</u>
<u>Adnabod a gwella ein sgiliau a'n cryfderau</u>	25 munud	<u>06</u>
<u>Logos personol</u>	15 munud	<u>08</u>
<u>Dirwyn i ben</u>	5 munud	<u>09</u>



TORRI'R GARW

Defnyddiwch y gweithgaredd yma i gael eich grŵp i roi cynnig ar dasg gyflym sy'n seiliedig ar sgiliau, er mwyn dechrau meddwl am sut mae sgiliau'n gallu cael eu hadnabod, eu hymarfer a'u gloywi.



TIME REQUIRED

10-15 minutes



DEUNYDDIAU

Yn y gweithgaredd yma byddwch chi'n dangos sgil i'r dysgwyr, a byddan nhw'n defnyddio'r deunyddiau sydd ar gael i geisio ymarfer sgil. Bydd y deunyddiau'n dibynnu ar y gweithgareddau y byddwch chi a'ch grŵp yn dewis eu gwneud, ond bydden nhw'n gallu cynnwys y canlynol:

- ✓ Os oes gennych chi un wrth law (mae'n gweithio'n dda os ydych chi'n cyflwyno'r sesiwn ar-lein): offeryn
- ✓ Os ydych chi'n tynnu llun: papur a phensiliau

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Ar ddechrau'r sesiwn, eglurwch i'r dysgwyr beth yw'r deilliannau dysgu. Dangoswch sgil yn gyflym i'ch dysgwyr. Gall y gweithgaredd rydych chi'n ei ddewis ddibynnu ar eich diddordebau eich hun – gall hyd yn oed fod yn rhywbeth doniol, neu'n rhywbeth nad ydych chi'n gallu ei wneud yn 'berffaith' er mwyn iddyn nhw allu uniaethu mwy â chi! Er enghraifft, dwdlo heb dynnu'r beiro oddi ar y dudalen neu chwarae offeryn.
2. Gofynnwch am wirfoddolwyr i roi cynnig arni, i ddangos eu sgiliau eu hunain gan ddefnyddio'r deunyddiau sydd ganddyn nhw wrth law. Pwysleiswch nad oes angen iddyn nhw fod yn dda am wneud y gweithgaredd maen nhw wedi'i ddewis. Os byddwch chi'n cyflwyno'r sesiwn yma mewn ystafell ddosbarth, gallwch awgrymu bod y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach, oherwydd gallai hyn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus am rannu eu sgiliau. Os byddwch chi'n cyflwyno'r sesiwn ar-lein, efallai y byddwch chi am ddefnyddio ystafell drafod ar-lein neu rywbeth tebyg i hwyluso'r gwaith grŵp.
3. Gofynnwch iddyn nhw pam eu bod wedi dewis y gweithgaredd yma – oherwydd ei fod yn rhywbeth mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddo (er enghraifft, eisiau bod yn arlunydd ac felly'n dewis tynnu llun), yn rhywbeth maen nhw'n dda am ei wneud, neu'n weithgaredd maen nhw'n ei fwynhau?
4. Mae ystyried y mathau o weithgareddau maen nhw'n eu mwynhau, neu sydd o ddiddordeb iddyn nhw'n barod, yn fan cychwyn gwych i bobl ifanc wrth iddyn nhw feddwl am y sgiliau a'r cryfderau maen nhw am eu datblygu ymhellach. Gallwch egluro cysyniadau dyfalbarhad, ymroddiad, cymhelliant a chysondeb, er mwyn pwysleisio ei bod hi'n bwysig parhau i ymarfer a gweithio'n galed er mwyn dod yn well am wneud gwahanol weithgareddau.



CYFLWYNIAD I DDATBLYGU SGILIAU

Defnyddiwch y gweithgaredd yma i helpu'r dysgwyr i ddeall beth yw sgiliau, drwy ddefnyddio enghreifftiau go iawn.



AMSER

15 munud



DEUNYDDIAU

Gan ddibynnu ar beth sydd ar gael i chi, gallwch ddefnyddio naill ai:

- ✓ Papur siart troi neu fwrdd gwyn a beiro, neu adnodd bwrdd gwyn ar-lein
- ✓ Google docs neu ddogfen ar-lein debyg, mynediad i'r rhyngwrwyd

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Gofynnwch i'r dysgwyr gyfrannu eu diffiniadau eu hunain o sgil, a chofnodwch y rhain ar bapur siart troi, ar fwrdd gwyn, neu ar Google Doc / llwyfan rhannu tebyg os ydych chi'n cyflwyno'r sesiwn ar-lein.
2. Ar ôl i chi gasglu'r atebion, darllenwch y diffiniad canlynol:
"Gallu rydych chi'n ei ddysgu ydy sgil – mae'n rhywbeth y gallwch chi ei wella, a naill ai'n gallu bod yn gryfder, neu'n elfen i'w datblygu".
3. Esboniwch fod gan bob un ohonom ni gymysgedd o sgiliau a chryfderau, sydd wedi cael eu datblygu drwy ein diddordebau, ein hastudiaethau, ein gwaith a'n profiadau. Yn aml iawn mae sgiliau'n gallu cael eu trosglwyddo hefyd, sy'n golygu eu bod nhw'n gallu cael eu rhoi ar waith gyda gwahanol weithgareddau a thasgau. Drwy benderfynu pa sgiliau i'w gloywi, gallwn baratoi ein hunain yn well i ddelio â newidiadau mawr, yn enwedig wrth feddwl am y dyfodol ac am yrfaeodd.
4. Gofynnwch i'r grŵp awgrymu gwahanol fathau o sgiliau trosglwyddadwy, ac ysgrifennwch eu hatebion.

ENGHREIFFTIAU I'W DEFNYDDIO FEL AWGRYMIADAU:

- Datrys problemau
- Gallu addasu
- Gwaith tîm
- Negodi
- Rhaglennu cyfrifiaduron
- Celf neu ddylunio
- Canu
- Rhifedd
- Cyflwyno
- Gwranddo
- Coginio

Gallwch hefyd ddefnyddio gwybodaeth gan Skills Builder Partnership i gael rhagor o syniadau am y sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnom ni i lwyddo: www.skillsbuilder.org



5. Gofynnwch i'r grŵp feddwl am berson penodol sydd ag un neu fwy o'r sgiliau hyn – gallai fod yn rhywun enwog, yn ddylanwadwr neu'n aelod o'u teulu neu eu cymuned.

GALLECH DDEFNYDDIO'R RHESTR ISOD FEL YSBRYDOLIAETH OS YDYN NHW'N CAEL TRAFFERTH MEDDWL AM RYWUN:

- | | | |
|------------------|------------------|-------------------|
| ✓ Elon Musk | ✓ Lady GaGa | ✓ George the Poet |
| ✓ Steve Jobs | ✓ Stormzy | ✓ Rishi Sunak |
| ✓ Nadiya Hussain | ✓ Jacinda Ardern | ✓ Marcus Rashford |

6. Gofynnwch i bob unigolyn feddwl am y cwestiynau canlynol a rhowch amser iddyn nhw ysgrifennu eu hatebion yn dawel, cyn dod at ei gilydd i drafod fel grŵp:
- Yn eu barn nhw, pam mae'r person yma'n gallu gwneud y sgiliau yma mor dda? (Er enghraifft, ymarfer, dewis elfennau penodol i ganolbwyntio arnyn nhw neu i'w hastudio, dysgu gan eraill, gweithio'n galed)
 - Beth wnaeth gymell y person yma i barhau i ddatblygu'r sgil yma? (Er enghraifft, cymhelliant, dilyn ei angerdd a'i ddiddordebau ei hun, eisiau helpu eraill)
 - Pa heriau y mae wedi gorfod eu goresgyn o bosibl? Sut byddai wedi gallu gwneud hynny?
 - Oedd y person wedi dod o hyd i ffyrdd o drosglwyddo un sgil i wahanol elfennau o'i waith?
7. Eglurwch fod yna 'nodwedd gyffredin' allweddol yn atebion pawb: mae pob un o'r bobl hyn wedi cyflawni eu nod drwy gael agwedd gadarnhaol, drwy ddangos ymroddiad a drwy weithio'n galed.

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL:

Gofynnwch i'r bobl ifanc greu cyflwyniad, stori greadigol, collage neu dynnu llun sy'n tynnu sylw at y pwyntiau maen nhw wedi'u trafod. Byddai'r rhain yn gallu cael eu cyflwyno, eu harddangos neu eu cadw ar gofnod i ddangos eu datblygiad.



ADNABOD A GWELLA EIN SGILIAU A'N CRYFDERAU

Bydd y gweithgaredd yma'n galluogi'r dysgwyr i adnabod eu sgiliau ac i ddeall sut maen nhw'n gallu gwella eu sgiliau a'u cryfderau.



AMSER

25 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Beiros
- ✓ Taflen waith Cryfderau a datblygiad
- ✓ Os ydych chi'n gweithio ar-lein gyda grwpiau, defnyddiwch nodweddion fel ystafelloedd trafod ar-lein neu lwyfan rhannu dogfennau



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi cryfder(au) personol / rhoi enghreifftiau o gryfder(au) personol / disgrifio cryfder(au) personol
- ✓ Nodi elfen / rhoi enghreifftiau o elfennau / disgrifio elfennau y mae angen i chi eu datblygu'n bersonol

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Gofynnwch i'r grŵp feddwl am enghreifftiau o sgiliau maen nhw'n teimlo'n hyderus yn eu cylch, neu maen nhw'n awyddus i adeiladu arny'n nhw a'u datblygu ymhellach. Bydden nhw'n gallu bod yn sgiliau ar gyfer swydd ddelfrydol, neu rannau eraill o'u bywyd – er enghraifft, bod yn gapten gwell ar eu tîm chwaraeon, cael mwy o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol, neu feithrin cysylltiadau cryfach â'u teulu a'u ffrindiau. Os ydych chi'n adnabod y grŵp yn dda, gofynnwch am rai o'u diddordebau a'u helpu i feddwl am sut maen nhw'n gysylltiedig â sgil perthnasol. Dylech eu hatgoffa y gall llawer ohonyn nhw fod yn sgiliau trosglwyddadwy – mewn geiriau eraill, bydden nhw'n gallu eu helpu i fod yn well am wneud gwahanol weithgareddau mewn gwahanol sefyllfaoedd.
2. Rhannwch y daflen waith Fy sgiliau a'm cryfderau. Ar eu taflen waith eu hunain, gofynnwch i'r dysgwyr roi tic wrth ymyl y sgiliau maen nhw'n teimlo sydd ganddyn nhw o'r rhestr honno. Yn yr ail dabl, bydd angen iddyn nhw ysgrifennu 3-4 o'u prif sgiliau, ac ysgrifennu enghreifftiau i ddweud ble/pryd maen nhw wedi dangos y sgil hwnnw. Dylech eu hannog i feddwl am sut mae'r un sgil yn gallu cael ei drosglwyddo, ei ymarfer a'i ddangos drwy wahanol weithgareddau.
3. Gan weithio gyda phartner (wyneb yn wyneb, mewn ystafelloedd trafod ar-lein neu drwy ddefnyddio dogfennau ar-lein sy'n cael eu rhannu), gofynnwch i un person ym mhob pâr siarad am y sgiliau mae wedi'u ticio, gan ofyn am adborth ar unrhyw sgiliau ychwanegol mae'n meddwl sydd ganddo a'u hychwanegu at y daflen waith. Ar ôl ychydig funudau, gofynnwch i'r parau gyfnewid rôl.
4. Wedyn gofynnwch i'r grŵp roi cylch o amgylch y sgiliau yn y rhestr maen nhw eisiau eu datblygu, ac ysgrifennu 2-3 ohonyn nhw yn yr ail dabl ar y daflen waith.



5. Gan barhau i weithio mewn parau, gofynnwch iddyn nhw ystyried pam eu bod wedi nodi'r sgiliau/elfennau hyn i'w datblygu, cyn nodi'r rhesymau hyn yn y golofn olaf ar eu taflen waith.

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL:

1. Dylech annog y dysgwyr i ddefnyddio gwefan gwybodaeth am yrfaeod, fel iCould.com neu nationalcareers.service.gov.uk i ddarllen am y sgiliau sydd eu hangen mewn gwahanol swyddi.
2. Gofynnwch iddyn nhw gymharu'r sgiliau ar gyfer y swyddi dan sylw â'r sgiliau maen nhw wedi'u nodi, a thrafod sut i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ymhellach.
3. Gofynnwch iddyn nhw ychwanegu'r wybodaeth yma at y daflen waith.



LOGOS PERSONOL >

Defnyddiwch y gweithgaredd yma i annog y dysgwyr i gynrychioli eu sgiliau a'u cryfderau yn weledol, a'u cyflwyno i'r grŵp.



AMSER

15 munud



DEUNYDDIAU

Gan ddibynnu ar beth sydd ar gael i chi, gallwch ddefnyddio naill ai:

- ✓ Papur a beiros lliw
- ✓ Cyfrifiaduron, ffonau neu ddyfeisiau tabled a mynediad i'r rhyngwyd



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi cryfder(au) personol / rhoi enghreifftiau o gryfder(au) personol / disgrifio cryfder(au) personol

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Eglurwch fod tarianau a logos wedi cael eu defnyddio ers blynyddoedd lawer gyda geiriau a lluniau i greu cynrychiolaeth weledol o gryfderau a hunaniaeth sefydliad, unigolyn neu grŵp. Gallech ddangos enghreifftiau o glwb pêl-droed, neu'r logos a'r elfennau creadigol mae cwmnïau'n eu defnyddio ar eu gwefannau ac ar gyfryngau cymdeithasol. Eglurwch fod y ffordd rydym ni fel unigolion hyn yn oed yn portreadu ein 'brand' ein hunain – ein gwerthoedd, ein huchelgais, ein cryfderau – yn gallu bod yn bwysig iawn i'r ffordd rydym yn cyfleu ein hunain i bobl eraill, gan gynnwys cyflogwyr.
2. Dywedwch wrth y grŵp eu bod nhw'n mynd i feddwl am eu 'brand personol' eu hunain – beth fydden nhw'n ei ddweud am eu cryfderau, eu gwerthoedd a'u huchelgais eu hunain er mwyn rhoi'r argraff orau bosibl ohonyn nhw eu hunain? Rhwng bapur a beiros i'r dysgwyr, neu ofyn iddyn nhw greu dogfen Word os yw'r wers yn cael ei chynnal o bell.
3. Gofynnwch i'r dysgwyr greu eu dehongliad eu hunain o 'darian' – bydden nhw'n gallu creu tarian draddodiadol, neu fod yn fwy gwreiddiol drwy ddylunio logo, neges Instagram, bathodyn digidol ac ati. Bydden nhw hyd yn oed yn gallu dychmygu eu bod yn creu'r darian gyda nod penodol mewn golwg – er enghraifft, rhywbeth y bydden nhw'n ei roi ar gyfryngau cymdeithasol neu ar CV. Efallai y byddan nhw am ymchwilio i enghreifftiau ar-lein.
4. Gofynnwch i bob dysgwr baratoi cyflwyniad cyflym a chryno o'u tarian ar gyfer gweddill y grŵp. Gan ddibynnu ar faint o amser sydd gennych chi, efallai y byddwch chi eisieu iddyn nhw wneud hyn mewn grwpiau – mae hyn hefyd yn gyfle da iddyn nhw ymarfer sgiliau fel gwaith tîm ac arwain. Dywedwch wrthyn nhw mai dim ond munud fydd ganddyn nhw i wneud eu cyflwyniad, a'i bod yn bwysig felly iddyn nhw feddwl am sut byddan nhw'n gwneud y pethau hyn:
 - Cyfleu eu syniad yn glir ac yn gryno
 - Cyfleu'r prif bwyntiau
 - Cynnig llawer o egni a chyffro er mwyn gwerthu eu syniad
5. Ar ôl iddyn nhw orffen y cyflwyniad, gofynnwch i bobl eraill yn y grŵp roi adborth. Dylech bwysu a mesur y sgiliau maen nhw wedi'u hymarfer a'u dangos wrth wneud hyn – er enghraifft, cyflwyno, gwrando, cyfathrebu.



DIRWYN I BEN >



AMSER

5 munud

- ✓ Cofiwch atgoffa'r bobl ifanc mai deilliannau'r sesiwn oedd gallu:
 - Dweud beth yw sgiliau a chryfderau
 - Dweud beth yw eu sgiliau a'u cryfderau eu hunain
 - Dweud pa elfennau y mae angen iddyn nhw eu datblygu'n bersonol
- ✓ Gofynnwch iddyn nhw beth maen nhw wedi'i ddysgu yn y sesiwn yma.
- ✓ Ydyn nhw'n gallu dweud beth yw eu sgiliau a'u cryfderau eu hunain?
- ✓ Ydyn nhw'n gweld sut maen nhw'n berthnasol i fywyd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol?
- ✓ Ydyn nhw'n teimlo'n fwy hyderus am eu sgiliau a'u cryfderau?



Prince's Trust

START
SOMETHING